Llinell Amser English
Hafan Pori Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd

MORRIS, EBENEZER (1769 - 1825), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd

Enw: Ebenezer Morris
Dyddiad geni: 1769
Dyddiad marw: 1825
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Gomer Morgan Roberts

Ganwyd yn yr Henbant, Lledrod, Sir Aberteifi, yn 1769, yn fab hynaf yr enwog David Morris a Mary ei briod. Symudodd gyda'i dad i blwyf Tredreyr yn 1774, a chafodd ychydig addysg mewn ysgol a gedwid gan Daniel Davies, curad y plwyf. Aeth i gadw ysgol yn Nhrecastell, Brycheiniog, c. 1786, a chafodd argyhoeddiad ysbrydol yno dan weinidogaeth y cynghorwr Methodistaidd Dafydd William Rhys. Ymunodd â'r seiat Fethodistaidd yn Nhrecastell a dechreuodd bregethu c. 1788. Dychwelodd i'w gynefin, ac ar farwolaeth ei dad yn 1791 ymgymerodd â bugeilio'r praidd Methodistaidd yn Nhŵrgwyn a'r ardaloedd o gwmpas. Priodod, 1792, Mary Jones o'r Dinas, Betws Ifan, ac o'i' chynhysgaeth hi y cododd gartref newydd ym Mlaen-y-wern, lle y bu'n byw o 1804 hyd ddiwedd ei oes. Bu farw 15 Awst 1825, a chladdwyd ef yn ymyl ei dad. Cyfrifid ef yn un o'r pregethwyr grymusaf ymhlith Methodistiaid ei gyfnod, a gadawodd ei weinidogaeth argraff annileadwy ar ei wrandawyr. Edrychid arno hefyd fel arweinydd diogel yn sasiynau'r Methodistiaid. Cymerth ran flaenllaw ym mudiad yr ordeinio ymhlith y Methodistiaid, ac ordeiniwyd ef gyda'r fintai gyntaf yn sasiwn Llandeilo Fawr yn 1811. Yr oedd yn un o lunwyr *Cyffes Ffydd* y Methodistiaid yn 1823.

Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts, (1904 - 1993)

Ffynonellau

Y Drysorfa, 1832, 289-93

Methodistiaeth Cymru (1851â€“6), iii, 91-103

Y Gwyddoniadur Cymreig (1889â€“96), vii, 557

J. Morgan Jones a W. Morgan, *Y Tadau Methodistaidd* (1895-1897), ii, 338-73

Benjamin Williams (Gwynionydd), *Enwogion Ceredigion* (1869), 183

Gweithiau

Ebenezer Morris, *Crynodeb o dair o bregethau a bregethwyd yn nghymanfaoedd y Bala, Gan y diweddar Barch. Ebenezer Morris, Sir Aberteifi: yr hwn a fu farw Awst 15, 1825, yn 56 flwyddyn o'i oed* (Dinbych 1825)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732913

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Roberts, G. M., (1953). MORRIS, EBENEZER (1769 - 1825), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 14 Awst 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-MORR-EBE-1769

Copïo i'r clipfwrdd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC NLW

LLYFRGELL THE NATIO

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government